

Grŵp Cyswllt Prosiect Adeiladu Newydd Wylfa (GCP)

COFNODION

Cofnodion Grŵp Cyswllt Prosiect Adeiladu Newydd Wylfa a gynhaliwyd ddydd Iau 16 Chwefror 2012 am 5.30pm yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian (Canolfan Dysgu a Datblygu Wylfa).

Yn bresennol (yn nhrefn y wyddor, yn ôl eu sefydliad):

Sefydliad	Enw	Cyfenw
Agewell Môn	Vic	Tolhurst
Byd Gwaith a Mwy	Damian	Hamilton
Coleg Menai	Wyn	Thomas
Cwmni Cemaes Cyf	Eric	Torr
Cyd Gyngor Safle Gorsaf Bŵer Wylfa / Unite	Trevor	Roberts
Cymdeithas Amaethyddol Môn	John	Chamberlain
Y Cyngorydd Sir Llanbadrig	Y Cyng William Thomas	Hughes
Y Cyngorydd Sir Llanfaethlu	Y Cyng Kenneth P	Hughes
Cyngor Ar Bopeth Ynys Môn	Karen	Garrod
Cyngor Conwy	Stuart	Anderson
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Anthony	Hughes
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Elfed	Jones
Cyngor Cymuned Llanelian	Helen	Woodcock
Cyngor Cymuned Llannerch y Medd	John	Jukes
Cyngor Cymuned Tref Alaw	Anna	Jones
Cyngor Cymuned Tref Alaw	Trevor	Jones
Cyngor Sir Ynys Môn (Adnoddau Dynol)	Carys	Edwards
Cynrychiolydd Cyngor Gwynedd	John Gwilym	Jones
Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru	Susan Ventris	Field
Dŵr Cymru (Welsh Water)	Angela	Meadows
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Sarah	Andrews
Is Gadeirydd GPC /Menter Mechell / Carrog Renewables	Jac	Jones
Magnox (Wylfa)	John Idris	Jones
Plaid Geidwadol Ynys Môn	Paul	Williams
Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)	Heidi	Williams

Ymddiriedolaeth Bodorgan	Melanie	Wymer
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru	Richard	Williams
Ysgol Gyfun Llangefni	Alwyn	Pritchard
Ysgol Gynradd Cemaes	Iala	Halil
Ysgol Syr Thomas Jones	Aaron	Bailey
Ysgol Syr Thomas Jones	Callum	Gaskell
Ysgol Syr Thomas Jones	Jean	Jones
Ysgol Syr Thomas Jones	Gemma	Roebuck
Aelodau'r cyhoedd		
	Derek	Gadston
	Owain	Jones
	Kimberley	Jones
	Steve	Roberts
	Gwilym	Williams
Ymddiheuriadau		
Aelod Cynulliad Cymru Lleol	Ieuan Wyn	Jones AC
Aelod o'r cyhoedd	Mel	O'Hara
Aelod Seneddol	Albert	Owen AS
AS Dwyfor Meirionnydd	Elfyn	Llwyd AS
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	Iwan	Williams
CFfl Ynys Môn	Elen	Thomas
Y Cyngorydd Sir Trewalchmai	Y Cyng Bob	Parry
Y Cyngorydd Sir Llaneilian	Y Cyng Aled Morris	Jones
Y Cyngorydd Sir Mechell	Y Cyng Tom	Jones
Y Cyngorydd Sir Parc a'r Mynydd	Y Cyng John V	Owen
Cyngor Ar Bopeth Ynys Môn	Jackie	Blackwell
Cyngor Sir Ynys Môn (Clerc tref Caergybi)	Clifford	Everett
Cyngor Sir Ynys Môn (Pennaeth Gwasanaeth – Datblygiad	Sasha Wynn	Davies

Economaidd)		
Cyngor Sir Ynys Môn (Pennaeth Gweithredol yr Adran Economaidd)	Dylan	Williams
Cyngor Tref Amlwch	Y Cyng Gareth Winston	Roberts
Cyngor Tref Amlwch Town	Y Cyng Val	Roberts
Cyngor Tref Amlwch Town	Y Cyng Meg	Roberts
Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad	Valerie	Taylor
Chwarae Teg	Ellie	Harwood
Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru	Keith	Williams
Menter Môn	Gerallt	Jones
NSA – Nuclear	Alli	Hunt
Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru	Andrew	Forfar
Prifysgol Bangor	Paul	Spencer
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)	William	Edwards
Wylfa Retirees Association	Tom	Conway
Ysgol David Hughes	Dr Brian	Jones
Ysgol Uwchradd Bodedern	Irfon	Morris

Os yw eich enw wedi'i adael oddi ar y rhestr, trwy gamgymeriad, neu wedi'i gofnodi'n anghywir, cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu yn wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com.

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Dennis Evans (DE). Derbyniwyd ymddiheuriadau.

2 CYMERADWYO COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod diwethaf y GCP (10 Tachwedd 2011) yn gofnod gwir a chywir o'r digwyddiadau ac fe'u cymeradwywyd gan aelodau.

MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL:

- Roedd Ieuan Wyn Jones wedi datgan bod Ynys Môn wedi'i dynodi'n Barth Menter

- Dywedodd Dr John Idris Jones fod Edwina Hart (y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth) wedi dynodi saith safle bosib ar gyfer statws menter, gan gynnwys Ynys Môn, a ddaw yn barth ynni carbon isel. Bydd Edwina Hart yn rhoi mwy o fanylion ynglŷn â manteision bod yn Barth Menter yn 2012.
- Gofynnodd John Chamberlain a fyddai canolfan iechyd neu ganolfan feddygol ar y safle, er mwyn tarfu cyn lleied â phosib ar wasanaethau lleol
 - Atebodd Horizon bod ystyriaethau iechyd yn cael eu trafod yn yr Asesiad o Effaith ar Iechyd ac astudiaethau economaidd gymdeithasol, lle bydd y galw ychwanegol ar wasanaethau hanfodol yn cael ei asesu.
- Cytunodd y GCP y byddai diogelwch a sicrwydd yn cael sylw o'r newydd pan fyddai'r broses o ddewis gwerthwr wedi'i chwblhau

3 Newyddion Prosiect - Charlie Tasker, Cyfarwyddwr y Prosiect, Pŵer Niwclear Horizon, a Kieran Somers, Pennaeth Cynllunio a Chaniatâd, Pŵer Niwclear Horizon

- Croesawodd y Cadeirydd Charlie Tasker (CT) i'w gyfarfod cyntaf. Ymddiheurodd CT dros Alan Smith (AS) am nad oedd yn gallu bod yn bresennol, ond dywedodd y bydd yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y GCP.
- *Dewis Gwerthwr* – dywedodd CT y disgwylir i'r broses o ddethol gwerthwr fod wedi'i chwblhau'n fuan. Mae dewis gwerthwr yn golygu dros dair blynedd o waith gyda'r ddau ddarparwr technolegol – AREVA a Westinghouse – a gwneir y cyhoeddiad i randdeiliaid lleol ac ar y cyfryngau.
- *Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned (DYG)* - cyhoeddwyd DYG Horizon yn y wasg leol yn Rhagfyr 2011 a chafodd dderbyniad cynnes gan randdeiliaid allweddol a chan Gyngor Sir Ynys Môn. Dywedodd Kieran Somers (KS) fod y DYG yn dynodi sut bydd Horizon yn ymgynghori â phobl leol. Dywedodd KS fod y DYG ar gael ar wefan Horizon.
- *Ymgynghori â'r Gymuned 2012* – dywedodd KS fod Horizon yn datblygu deunydd ar gyfer cam cyntaf yr ymgynghori ffurfiol. Cyhoeddir y dogfennau hyn ar ddechrau'r broses ymgynghori a byddant ar gael ar wefan Horizon.
- Cyhoeddir y cyfnod ymgynghori ar ôl dewis gwerthwr technoleg a disgwylir iddo bara oddeutu 10 wythnos. Bydd yn cynnwys arddangosfeydd a digwyddiadau ar hyd a lled Ynys Môn a Gogledd Cymru.
- Bydd y broses ymgynghori'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn ag agweddau allweddol eraill y datblygiad, megis ffyrdd, llety gweithwyr a'r amgylchedd. Ceisir adborth gan y cyhoedd gydol y cyfnod ymgynghori.

- *Traffig a chludiant* – amlinellodd CT agwedd Horizon tuag at ffordd, traffig a chludiant. Mae Mott MacDonald yn gwneud gwaith arolygu ar hyd yr A5025. Mae hyn yn rhan allweddol o'r prosiect y mae angen adborth iddo yn ystod y cyfnod ymgynghori.
- Dywedodd CT fod Horizon yn ymwybodol o sion ynglŷn â'r ffordd arfaethedig, a dywedodd nad oedd ffordd ddeuol yn cael ei hystyried.
- *Tir ac eiddo* – dymchwelwyd chwe eiddo gwag ar y safle yn Rhagfyr mewn ymateb i sylwadau bod y tai wedi'u byrddio yn hyllbethau. Esboniodd CT y byddai rhai adeiladau ychwanegol yn cael eu dymchwel eleni (2012), ond bod rhaid ystyried camau priodol wrth ddelio gyda'r ystlumod sy'n meddiannu'r tai ar hyn o bryd.
- Derbyniwyd un gŵyn gan drigolyn lleol ynglŷn â gwaith cynnal a chadw yn Nant Orman. Bydd Horizon yn sicrhau y bydd pobl leol yn cael eu hysbysu'n briodol pan fydd angen gweithio ar y safle.
- *Datblygu Safle* – mae Horizon yn parhau i gynnal astudiaethau amgylcheddol a fydd yn cefnogi'r Asesiad o Effaith ar yr Amgylchedd fel rhan o'r broses ymgynghori. Mae timau'n brysur yn cynnal arolygon a byddant yn parhau i edrych ar ardaloedd ychwanegol ar gyfer gosod a thirlunio.
- *Swyddfa'r Safle* - disgwylir i swyddfa'r safle agor ddiwedd Mawrth, a bydd mwy o gyfleoedd i randdeiliaid ac aelodau'r cyhoedd wneud apwyntiadau i gwrdd â Horizon, unwaith y bydd y ganolfan barhaol hon wedi'i sefydlu yn Wylfa.
- *Aelodau tîm newydd* - mae Richard Foxhall (RF) newydd ei benodi yn Rheolwr Cyswllt Rhanddeiliaid newydd.
- Diolchodd RF i DE a CT am y cyfle i ddweud gair neu ddau. Yr oedd wrth ei fodd yn ymuno â'r prosiect, ac mae'n credu y gwnaiff wahaniaeth i fywydau pobl leol Ynys Môn a gogledd orllewin Cymru.
- *Grid Cenedlaethol (GC)* – esboniodd CT fod cyfarfodydd rheolaidd yn dal i gael eu cynnal â'r GC. Mae'r GC wedi bod yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ar Ynys Môn ynglŷn â'i opsiynau strategol, ond nid yw wedi dod i benderfyniad terfynol hyd yn hyn. Bydd Horizon yn cwrdd â'r GC ym Mawrth i drafod ei agwedd tuag at ymgynghori.

Holi ac Ateb

- Gofynnodd y Cynghorydd William Thomas Hughes (Llanbadrig) am esboniad a oedd arolwg ffordd yr A5025 yn berthnasol i'r ffordd o'r Fali i Gemaes, neu'r holl ffordd i

Amlwch. Mynegodd ei bryder hefyd ynglŷn â mynediad Gwylwyr y Glannau yn ystod cyfnod adeiladu a gweithrediad Adeiladu Newydd Wylfa.

- Cadarnhaodd KS fod astudiaethau'r A5025 yn mynd y tu hwnt i Gemaes i Amlwch, gan fod rhaid ystyried ffactorau eraill megis llety gweithwyr a theithio.
- Cytunodd CT fod angen ystyried ac ymgorffori mynediad Gwylwyr y Glannau. Dywedodd RF ei fod wedi trosglwyddo sylwadau'r Cynghorydd Hughes i'r bobl berthnasol yn Horizon, ac y caiff unrhyw newyddion ynglŷn â datblygiadau.

4 Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd (AEA) Wylfa ac astudiaethau'r A5025 Kieran Somers (KS) a Casper Probart, Mott MacDonald

- *Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd* – rhoddodd KS ddarlun cyffredinol o'r broses AEA a'i bwysigrwydd yn y gwaith o ddatblygu cais cynllunio.
- Mae angen Gorchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) ar unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau sylweddol megis ffyrdd, llety gweithwyr, parcio a theithio ayb, a'r awdurdod lleol fydd yn gwneud y penderfyniad hwnnw. Rhaid i'r GCD gael ei gefnogi gan astudiaethau amgylcheddol a Datganiad Amgylcheddol.
- Datblygwyd dogfen gwmpasu gychwynnol yn 2009, a'i chyflwyno i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith (CCS) a phob ymgynghorai statudol arall. Ers hynny, ymgymerwyd ag astudiaethau amgylcheddol.
- Deilliodd dau gam gweithredu allweddol o'r broses gwmpasu; cais am Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (AEG). Dechreuwyd y prosesau hyn, a sefydlwyd grwpiau llywio yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn y meysydd hyn. Ymgynghorir ynglŷn â'r adroddiadau cwmpasu gyda'r cyhoedd yn ystod ail gam yr ymgynghoriad cymunedol yn 2013.
- Crynhodd KS y pynciau a gaiff eu bwydo i'r AEA. Mae arolygon Cam Un yn cynnwys cynefinoedd a bywyd gwylt, ecoleg ddaearol, ecoleg dŵr croyw a'r amgylchedd morol. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal â grwpiau rhanddeiliaid perthnasol – megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru – i lywio sgôp a methodoleg yr arolygon.
- *Astudiaethau'r A5025* – Cafwyd manylion astudiaethau A5025 Horizon gan Casper Probart (CP) o Mott MacDonald.
- Rôl CP yw sefydlu effeithiau posibl gwelliannau'r A5025 ar yr amgylchedd, a'r sefyllfa gyfredol ar hyd y ffordd. Byddant hefyd yn cynnal arolygon o safle Wylfa ei hun. Ar hyn o bryd, maent yn cynnal ymchwil yn y swyddfa. Mae Mott MacDonald hefyd yn ystyried mesurau lliniaru i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol y gallai gwella'r ffordd eu hachosi. Wrth gyflawni astudiaethau, mae Mott MacDonald wedi defnyddio arbenigedd a busnesau lleol bob tro yr oedd hynny'n bosib.

- Mae'r gwaith o arolygu'r safle wedi dechrau'n rhannol. Bydd y rhain yn asesu adar sy'n gaeafu ac yn bridio, a chynhelir arolwg manwl o gynefinoedd hefyd. Bydd yr astudiaethau hefyd yn cynnwys nifer fawr o feysydd eraill, yn amrywio o amddiffyn safleoedd treftadaeth archeolegol i brofi dŵr.

Holi ac Ateb

- Croesawodd John Idris Jones (Magnox) y ffaith bod Mott MacDonald yn gweithio gyda chwmnïau lleol. Gofynnodd a oedd gan Mott MacDonald unrhyw syniad pa mor hir fyddai'r astudiaethau'n cymryd.
 - Dywedodd CP fod y gwaith arolygu'n mynd rhagddo'n barhaus ac y byddai'n parhau'r flwyddyn nesaf hefyd, er mwyn cael data cadarn. Bydd yr amserlen yn dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei ganfod, felly mae'n anodd rhoi dyddiad penodol.
- Gofynnodd y Cyngorydd Hughes a oedd Horizon yn gwybod am unrhyw leoliadau Parcio a Theithio posibl.
 - Hyd nes bydd penderfyniadau ynglŷn â datblygiadau megis llety gweithwyr yn cael eu gwneud, dywedodd KS na allai Horizon ddweud lle gellid lleoli gwasanaethau Parcio a Theithio. Er bod safleoedd wedi cael eu cynnig, mae angen astudiaeth fwy trylwyr i ganfod y lleoliadau mwyaf addas.
- *Cwestiwn:* Roedd bonwr yn poeni bod pwyslais yn cael ei roi ar yr effaith ar fywyd gwyllt, ond nad oedd unrhyw sôn am yr effaith ar bobl. Mae'r A5025 yn destun siarad, ond nid yw pobl yn siŵr beth sy'n digwydd. ***Nodyn ar ôl y cyfarfod: Nid ydym yn gwybod pwy ofynnodd y cwestiwn hwn. Os mai chi ydoedd, gadewch i ni wybod, ac fe gywirwn y cofnodion hyn i ddangos hynny.***
 - Dywedodd KS bod Aseiad manwl o'r Effaith ar Iechyd – nid dim ond ar gyfer yr orsaf bŵer – ond hefyd ar gyfer datblygiadau cysylltiol. Penodwyd arbenigwyr i ystyried sut y gallai'r datblygiad effeithio ar bobl. Bydd mwy o fanylion yn yr adroddiad cwmpas yn yr ymgynghoriad. Bydd yr astudiaethau economaidd gymdeithasol yn ystyried yr effaith ar bobl a'u bywoliaethau. ***Nodyn ar ôl y cyfarfod: Cafwyd cyflwyniad ynglŷn â'r Aseiad o'r Effaith ar Iechyd gan Gymdeithion Ben Caves yn GPC mis Tachwedd. Gellir gweld hwn, ynghyd â chyflwyniadau a chofnodion o gyfarfodydd eraill, ar wefan y GCP ar www.wylfaplq.com <<http://www.wylfaplq.com>>***
- Mynegodd y bonwr ei bryder hefyd ynglŷn â'r ffaith bod pennu gwelliannau'r ffordd yn cymryd amser maith, a bod angen i drigolion wybod cyn gynted ag y bo modd beth oedd y gwelliannau dewisol, ac ymhle yr oeddent. Gofynnodd a allai Horizon roi rhyw awgrym ynglŷn â phryd y byddai penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud.
 - Dywedodd KS fod angen adborth o astudiaethau ac ymgynghoriadau cyhoeddus cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud ynglŷn â gwelliannau ffyrdd megis ehangu a gwella troadau. Ceisir yr adborth hwn adeg yr ymgynghori.

- Dywedodd Claire Loveday (Pŵer Niwclear Horizon) y rhyddheir mwy o wybodaeth ynglŷn ag amseru'r ymgynghori unwaith y bydd gwerthwr wedi'i ddewis.
 - Dywedodd DE fod y broses gynllunio'n un gymhleth, felly bydd cryn amser cyn y gellir gwneud penderfyniadau terfynol.
- Dywedodd Eric Torr (Cwmni Cemaes) fod Llanfachraeth yn ddarn peryglus o ffordd hyd yn oed cyn ystyried unrhyw draffig ychwanegol. A wnaed unrhyw benderfyniad i gael ffordd osgoi i'r pentref – fel y dywedwyd yn 2010?
 - Dywedodd CT na wnaed unrhyw benderfyniad hyd yn hyn. Bydd y ffocws ar lechyd a Diogelwch a bydd hyn yn helpu Horizon i benderfynu beth fydd angen ei wneud. Rhaid i'r arolygon gael eu cwblhau cyn y gellir cadarnhau dim byd. Datgelir y cynigion yn y dyfodol agos, ond rhaid dilyn prosesau ffurfiol a chynnal trafodaethau gyda thirfeddianwyr ar hyd y ffordd wrth i opsiynau gael eu hystyried. ***Nodyn ar ôl y cyfarfod: Mae Horizon wedi ysgrifennu at drigolion sy'n byw rhwng y Fali a'i safle yn Wylfa i amlinellu eu hargraffiadau cyntaf ynglŷn â gwelliannau posib i ffyrdd yn yr ardaloedd hyn. Mae trafodaethau hefyd wedi dechrau (ddiwedd Chwefror), gyda thirfeddianwyr y gallai newidiadau i'r ffordd gyfredol effeithio arnynt.***
- Dywedodd Damian Hamilton (Canolfan Byd Gwaith) mai'r A5025 yw'r ffordd fwyaf peryglus yng Nghymru, ac mai dim ond ochr orllewinol y ffordd sy'n cael ei harolygu. A oes trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Cyngor Sir i sicrhau bod pawb yn deall ei gilydd?
 - Dywedodd DE y bydd yn gofyn i Mrs Sasha Wynn Davies o Gyngor Sir Ynys Môn am y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â gwella priffyrdd ar ochr ddwyreiniol yr ynys.

5 Y Broses Asesu Dyluniad Generig (ADG); Mr Alan McGough (AMG) – Arweinydd Adeiladu Niwclear Newydd gyda'r Asiantaeth yr Amgylchedd

- Rhoddodd AMG ddarlun cyffredinol o'r broses Asesu Dyluniad Generig, sy'n asesu technoleg gorsaf bŵer niwclear newydd i'w defnyddio yn y DU ac mewn lleoliadau a bennir gan y Llywodraeth ar gyfer datblygu niwclear newydd. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithio gyda'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear i asesu'r technolegau hyn.
- Ar hyn o bryd, mae dau ddyluniad yn cael eu hasesu gan y broses ADG, AREVA EPR a Westinghouse AP1000. Nid eu cymharu yw bwriad yr ADG, ond ystyried a yw'r naill a'r llall yn addas ar gyfer eu datblygu yn y DU.
- Esboniodd AMG fod y ddau fath o dechnoleg ar gael yn barod, ac yn cael eu datblygu mewn rhannau eraill o'r byd. Defnyddiodd Okolouto yn Ffindir a Flamenville yn Ffrainc fel enghreifftiau o EPR, a Sanmen a Haiyang fel enghreifftiau o AP1000.

- Esboniodd AMG fod Llywodraeth y DU, ar ôl Fukushima, wedi gofyn i Dr Mike Weightman asesu effaith y digwyddiad ar niwclear newydd yn y DU. Roedd yr adroddiad terfynol (a gyhoeddwyd yn Hydref 2011), yn cynnwys nifer o argymhellion y mae'r ddau ddarparwr technoleg wedi'u gweithredu fel rhan o'r broses ADG.
- Gydol y broses ADG, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi dynodi 30 o faterion dylunio perthnasol gyda'r AP1000 a 51 o faterion perthnasol gyda'r EPR – gyda dau fater perthnasol yn gyffredin i'r ddwy dechnoleg. Ni chafwyd unrhyw faterion 'ysgubol', ac fe gyhoeddwyd yr ADG ar wefannau'r ddau werthwr, ac mae cynlluniau datrys ar droed. Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd rhwng y gwerthwyr a rheoleiddwyr i fonitro cynnydd.
- Yn Rhagfyr 2011, cyhoeddwyd y ddau gynllun gyda Chadarnhad Derbyn Dyluniad interim (CDDi) a Datganiadau o Hygyrchedd Dyluniad interim (DHDi). Mae'r dogfennau hyn ar gael yn llawn ar wefan y Gweithgor Iechyd a Diogelwch (www.hse.gov.uk) ac mae materion sydd angen eu datrys hefyd i'w gweld yno.
- Cyhoeddwyd sylwadau eraill a dderbyniwyd gan y cyhoedd a chyrrff sefydliadol eraill mewn oddeutu 70 o adroddiadau yn Rhagfyr 2011. Diolchodd AMG i bawb a ymatebodd a nododd y bydd atebion ac ymateb rheoliadol yn cael eu gwneud unwaith y bydd y CDDi a'r DHDi terfynol yn cael eu cyhoeddi.
- Ni fydd y CDDi na'r DHDi terfynol yn cael eu cyhoeddi hyd nes bydd pob cwestiwn wedi'i ateb, er mwyn i ddatblygwyr allu penderfynu buddsoddi neu beidio.
- Dywedodd AMG hefyd fod gan y Llywodraeth ofyniad Rhaglen Rheoli Datgomiysynu a Gwastraff er mwyn sicrhau bod gan ddatblygwyr ddigon o gyllid i reoli datgomiysynu a gwastraff i'r dyfodol.
- Esboniodd AMG fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn gorff annibynnol ar y Llywodraeth a'r diwydiant fel rheoleiddwyr. Maent yn gorff galluogi ac maent yn ystyried niwclear newydd fel rhan o dwf economaidd yn y DU. Fodd bynnag, mae diogelwch, sicrwydd a'r amgylchedd yn flaenoriaethau pwysig, a rhaid i bob adeiladu newydd fod yn dderbyniol o ran dyluniad.

Holi ac Ateb

- Gofynnodd John Chamberlain (Cymdeithas Amaethyddol Ynys Môn) a oedd y Broses ADG yn annibynnol ar y Llywodraeth a phwy sy'n ariannu'r archwiliadau?
 - Dywedodd AMG fod Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Swyddfa Rheoliadau Niwclear (SRhN) yn codi tâl ar werthwyr adweithyddion i ad-dalu costau (amser a deunyddiau, adnoddau technegol ychwanegol). O'r herwydd, mae'r broses ADG yn annibynnol ar y Llywodraeth ac ar y datblygwyr.

- Holodd Owain Jones (aelod o'r cyhoedd) ynglŷn â'r datblygiadau eraill megis Okolouto (Ffindir) a Flamenville (Ffrainc) y cyfeiriwyd atynt eisoes. Mae'r datblygiadau hyn wedi wynebu problemau, yn cynnwys oedi a chostau cynyddol. Gofynnodd a allai hyn ddigwydd yn Wylfa.
 - Atebodd AMG nad oedd gan y naill wlad na'r llall broses sy'n cyfateb i'r ADG; proses sy'n sicrhau bod datblygiadau'n addas ar gyfer amodau penodol gwahanol safleoedd ac sy'n lleihau'r angen i addasu'r dyluniad yn ddiweddarach. Yn ei farn ef, dywedodd AMG fod y ddau ddatblygiad wedi'u dechrau'n rhy fuan ar y safle, ac mai dyna a achosodd yr oedi.
 - Dywedodd AMG na fyddai Wylfa yn arbrawf, gan fod yr EPR a'r AP1000, y naill a'r llall, eisoes yn cael eu datblygu mewn rhannau eraill o'r byd. Byddent wedi'u cwblhau erbyn i Wylfa ddechrau gweithio.
 - Ychwanegodd CT fod Horizon wedi bod yn gweithio â'r ddau gwmni i asesu unrhyw oedi a materion perthnasol a oedd wedi codi gyda datblygiadau mewn rhannau eraill o'r byd.
- Gofynnodd Dr Stuart Anderson (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a fyddai'r cynigion i sefydlu un corff amgylcheddol yn y DU yn broses gymhleth, ac a fyddai hynny'n cael effaith ar yr ADG.
 - Dywedodd AMG fod Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn rhan o asiantaeth Cymru a Lloegr fwy ac y byddai'n derbyn y cytundeb sydd eisoes gan Asiantaeth yr Amgylchedd â Horizon i sicrhau trawsnewid rhwydd. Un cwestiwn nad yw wedi'i ddatrys yw a fyddai gan y corff newydd ddigon o adnoddau niwclear neu a fyddai'n rhaid prynu arbenigedd ychwanegol.
- Dywedodd Dr John Idris Jones (Magnox) ei fod yn falch bod rhaid i unrhyw gwmni sy'n bwriadu adeiladu yn awr ddarparu ar gyfer datgomisiynu, gan fod Wylfa yn dioddef yn awr oherwydd na ddyrannwyd arian ar gyfer datgomisiynu hanner can mlynedd yn ôl. Holodd pwy sy'n rheoleiddio'r Rhaglen Rheoli Gwastraff a Datgomisiynu, a phwy fydd yn gwneud asesiadau ac argymhellion ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol?
 - Atebodd AMG y byddai angen i elfen niwclear gorsaf bŵer gael Rhaglen Rheoli Gwastraff a Datgomisiynu gymeradwy cyn dechrau adeiladu. Daw cymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol a bydd NLFAB (Bwrdd Sicrhau Cyllido Rhwymedigaethau Niwclear) yn rhoi cyngor ynglŷn â'r ochr ariannol (byddai'n rhywbeth tebyg i gynllun pensiwn). Byddai'r Ysgrifennydd Gwladol wedyn yn ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd ynglŷn â pha mor ddigonol oedd y cynlluniau a gyflwynwyd. Dywedodd AMG mai eu rôl fel rheoleiddwyr niwclear yw ystyried ochr dechnegol rhaglen Rheoli Datgomisiynu a Gwastraff, gan gynnwys sylwadau ynglŷn ag a ydynt yn gyson â'r hyn a ddisgwyliad a thynnu sylw at unrhyw gostau a danamcangyfrifwyd.
- *Cwestiwn:* A oes angen i gynllun datgomisiynu gael Cyfleuster Gwaredu Daearegol gerllaw? ***Nodyn ar ôl y cyfarfod: Nid ydym yn gwybod pwy ofynnodd y cwestiwn***

hwn. Os mai chi ydoedd, gadewch i ni wybod, ac fe gywirwn y cofnodion hyn i ddangos hynny.

- Atebodd AMG fod polisi'r Llywodraeth ynglŷn â chyfleuster gwastraff diogel wedi'i bennu yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol (DPC) ar gyfer Cynhyrchu Pŵer Niwclear. Mewn egwyddor, mae ADG yn bwriadu sicrhau nad oes unrhyw wastraff amddifad (gwastraff heb unrhyw lwybr gwaredu wedi'i ragweld ar ei gyfer). Mae Cynllun Rheoli Datgomisiynu a Gwastraff yn ofyniad ar gyfer y cyfleuster newydd.
- Gofynnodd Paul Williams (Plaid Geidwadol Ynys Môn) beth fyddai'n digwydd i reolaeth datgomisiynu a gwastraff pe bai cwmni'n mynd yn fethdalwr?
 - Atebodd AMG mai cwestiwn i'r rheolwyr cyllido oedd hwn. Mae'n rhan o benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, a wneir gyda chymorth NLFAB. Dylai cyllid ar gyfer rhaglen o'r fath gael ei warchod rhag credydwyd, rhag ofn i broblemau ariannol godi.
 - Esboniodd CT fod ystyriaethau ynglŷn â gwastraff a datgomisiynu yn hanfodol i ddyluniad yr orsaf.
- Dywedodd DE y bydd y GCP yn dychwelyd at y mater hwn pan fydd y broses o ddewis gwerthwr wedi'i chwblhau.

7 UNRHYW FATER ARALL

- Dywedodd John Chamberlain (Cymdeithas Amaethyddol Ynys Môn) fod Horizon yn recriwtio Rheolwr Datblygu Safle. Gofynnodd a fydd y swydd ar gyfer y broses ddatblygu'n unig neu a fydd yn parhau i'r cyfnod adeiladu.
 - Dywedodd CT mai swydd ddatblygu yw hi ar hyn o bryd, ond gallai deilydd y swydd barhau wrth ei waith yn ystod y cyfnod adeiladu.
- Tynnodd Dr John Idris Jones (Magnar) sylw at ddigwyddiadau gyrfaedd yng Ngholeg Menai, Llangefni, ar 8 Mawrth ac yng Ngholeg Menai Bangor ar 15 Mawrth gyda thîm Ynni yr Ynys sy'n cynnwys Horizon, Magnox a'r Cyngor. Bydd y digwyddiadau ar gyfer pobl ifanc 13 – 15 oed a'u rhieni.

8 DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF:

- Anfonir dyddiad y cyfarfod nesaf at aelodau maes o law
- Diolchodd DE i bawb am ddod i'r cyfarfod. Daeth y cyfarfod i ben am 7.45pm.

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth gyffredinol am y prosiect neu ofyn unrhyw gwestiynau i Horizon, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm ar 0800 954 9516 neu wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com ac ymweld â www.horizonnuclearpower.com

Gallwch weld y cofnodion hyn a phob cyflwyniad o gyfarfod y GCP ar www.wylfaplg.com

